Gwarant Gwasanaethau Cyhoeddus ar Drin Data

Mae angen i ni drin gwybodaeth bersonol amdanoch er mwyn i ni allu darparu gwasanaethau i chi.

Dyma sut y byddwn yn gofalu am y wybodaeth honno.

Pan fyddwn yn gofyn i chi am wybodaeth bersonol, byddwn yn addo:

- sicrhau eich bod yn gwybod pam fod ei hangen arnom;
- gofyn am beth sydd ei angen arnom yn unig, a pheidio â chasglu gormod o wybodaeth neu wybodaeth amherthnasol;
- diogelu'r wybodaeth a sicrhau na chaiff unrhyw un ei gweld os nad oes ganddo hawl;
- ei rhannu â sefydliadau eraill dim ond pan fo'r gyfraith yn caniatáu hynny;
- sicrhau nad ydym yn ei chadw'n hirach nag sydd angen;
- peidio â defnyddio'ch gwybodaeth bersonol yn fasnachol heb gael eich caniatâd.

Yn gyfnewid am hyn, byddwn yn gofyn i chi:

- roi gwybodaeth gywir i ni;
- rhoi gwybod i ni cyn gynted â phosibl os oes yna unrhyw newidiadau, fel cyfeiriad newydd.

Bydd hyn yn ein helpu i sicrhau bod eich gwybodaeth yn ddibynadwy a bod gennym y wybodaeth ddiweddaraf amdanoch.

Gallwch gael rhagor o wybodaeth am:

- sut i ddarganfod pa wybodaeth sydd gennym amdanoch a sut i ofyn i ni gywiro unrhyw gamgymeriadau;
- cytundebau sydd gennym â sefydliadau eraill ar gyfer rhannu gwybodaeth;
- amgylchiadau lle gallwn drosglwyddo eich gwybodaeth bersonol heb ddweud wrthych, er enghraifft, i atal a chanfod trosedd neu i gynhyrchu ystadegau anhysbys;
- ein cyfarwyddiadau i staff ar sut i gasglu, defnyddio a dileu eich gwybodaeth bersonol;
- sut y byddwn yn sicrhau bod gennym y wybodaeth ddiweddaraf a'i bod yn gywir;
- sut i gwyno.

Pan fyddwn yn gofyn i chi am wybodaeth, byddwn yn cadw o fewn y gyfraith, gan gynnwys Deddf Diogelu Data 1998. Os oes gennych ymholiad neu ŷn am y ffordd y mae Defra'n trin eich gwybodaeth bersonol, gallwch:

- ffonio llinell gymorth Defra ar 08459 335577 a gofyn am y Swyddog Diogelu Data, neu
- anfon e-bost at data.protection@defra.gsi.gov.uk

I gael cyngor annibynnol am faterion diogelu data, preifatrwydd a materion yn ymwneud â rhannu data, gallwch gysylltu â'r Comisiynydd Gwybodaeth yn:

Wycliffe House, Water Lane, Wilmslow, Cheshire, SK9 5AF.

Ffôn: 01625 545745 Ffacs: 01625 524510

E-bost: mail@dataprotection.gov.uk

Gwefan: www.informationcommissioner.gov.uk

defra
Department for Environment
Food and Rural Affairs